# Prosiect Dyfodol Venue Cymru
# Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Mehefin 2026

# Venue Cymru Futures Project Update

June 2026

P’nawn da bawb,

Dyma’r wybodaeth ddiweddaraf gan brosiect Dyfodol Venue Cymru. Mae llawer yn digwydd ac mae hyd yn oed mwy o newyddion cyffrous i ddod.

Pnawn da bawb,

Here’s the latest update from the Venue Cymru Futures project. There’s lot going on and even more exciting news to come.

**Penodi Tîm Dylunio**

**Design Team Appointed**

Mae **AOC Architecture** wedi cael eu penodi'n brif bartner dylunio yn dilyn proses gaffael gystadleuol iawn a ddenodd lawer o ddiddordeb o bob cwr o'r sector.

Mae gan AOC Architecture brofiad helaeth o weddnewid adeiladau cyhoeddus drwy gyfuniad o ddylunio creadigol ac ymdrin yn gelfydd â safleoedd o bwys diwylliannol. Ers mwy nag ugain mlynedd, mae’r penseiri

**AOC Architecture** have been appointed as the lead design partner following a highly competitive procurement process that attracted wide ranging interest from across the sector.

AOC Architecture has a wealth of experience in transforming public buildings, combining creative design with a sensitive approach to sites of cultural importance. For more than 20

wedi hyrwyddo dulliau dyfeisgar mewn dylunio cynaliadwy sy'n helpu i leihau allyriadau carbon, defnyddio ynni'n fwy effeithlon a chreu budd hirdymor i'r cyhoedd.

Bydd contractwyr a chyflenwyr yn dod i gael golwg ar y lle dros y misoedd nesaf. Efallai y byddwch chi'n gweld wynebau newydd o bryd i'w gilydd o amgylch y safle, felly rhowch wên iddyn nhw a gwnewch iddyn nhw deimlo'n gartrefol.

Rhagor o wybodaeth

years, the practice has championed innovative approaches to sustainable design that helps lower carbon emissions, improve energy efficiency, and drive long-term public value.

They'll be bringing in some contractors and suppliers to have a look around over the next few months. You may see new faces from time to time around the site, so give them a smile and make them feel welcome.

Find out more




**Mae'r Gwasanaeth Canolfan Groeso wedi symud i mewn**

Mae Gwasanaeth Canolfan Groeso Llandudno wedi symud o Ganolfan Siopa Fictoria i Venue Cymru.

Symudodd y tîm i'r lleoliad newydd ddiwedd mis Ebrill ac maen nhw bellach yn weithredol.

**Tourist Information Service has moved in**

The Llandudno Tourist Information Service has relocated from the Victoria Shopping Centre to Venue Cymru.

The team moved in at the end of April and are now up and running.

Byddwch chi'n dal i gael yr un cyngor arbenigol cyfeillgar a byddwch chi'n gallu pori drwy'r un dewis gwych o anrhegion a gwybodaeth leol ond mewn lleoliad newydd.

You'll still receive the same friendly expert advice and be able to browse the same great selection of gifts and local information – just in a new location.

**Byddwch yn Rhan o'r Newid!**

Rydym ni'n chwilio am Gefnogwyr Newid o'r tîm i'n helpu ni i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, rhannu adborth, a chefnogi cydweithwyr trwy'r prosiect cyffrous hwn. Nid oes angen arbenigedd arnoch chi - dim ond brwdfrydedd a pharodrwydd i gymryd rhan.

Yn ôl ym mis Gorffennaf 2025 bu i nifer ohonoch yn garedig iawn gymryd rhan yn ein gweithgorau — diolch i chi am hynny. Os gwnaethoch chi hynny fe ddylech fod wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â'n Cefnogwyr Newid.

Os ydych chi'n dymuno cymryd rhan neu gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch rheolwr atebol neu anfonwch e-bost atom ni: dvc@conwy.gov.uk

**Be Part of the Change!**

We're looking for Change Champions from across the team to help us communicate updates, share feedback, and support colleagues through this exciting project. No special expertise required - just enthusiasm and a willingness to get involved.

Back in July 2025, many of you generously stepped forward to take part in our working groups — thank you for that. If you did, you should have received an invitation to join our Change Champions.

If you'd like to get involved or want to find out more, please speak to your line manager or drop us an email to vcf@conwy.gov.uk

Diolch am fod yn rhan o'r siwrnai gyffrous hon!  Mae pob carreg filltir yn gam tuag at drawsnewid dyfodol Venue Cymru.

Thanks for being part of this exciting journey! Every milestone is a leap toward transforming Venue Cymru's future.

Cadwch lygad am ragor o ddiweddariadau – ac os oes gennych chi syniadau neu gwestiynau, byddem ni wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Siaradwch â'ch rheolwr

Stay tuned for more updates - and if you've got ideas or questions, we'd love to hear. Have a word with your line manager or drop us an email to vcf@conwy.gov.uk.

atebol neu anfonwch e-bost atom ni -
dvc@conwy.gov.uk

**Sarah Ecob**

**Pennaeth Gwasanaeth – Economi a Diwylliant**
**Head of Service - Economy and Culture**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government